Adran Gwaith a Phensiynau

# Tâl Salwch Statudol a chais cyflogai am fudd-dal

## Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi

Os hoffech gael Braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, e-bost cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 328 1744** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear a ffonau symudol.

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk/cymraeg**

## Os ydych yn gyflogwr

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r ffurflen hon pan na all cyflogai gael Tâl Salwch Statudol (SSP), neu pan fydd SSP cyflogai wedi dod i ben neu ar fin dod i ben.

Bydd y wybodaeth a roddir gennych yn helpu'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i benderfynu ar gais cyflogai am fudd-dal.

Cwblhewch rannau **A**, **B** a **C** o'r ffurflen hon.

## Os mai chi yw'r cyflogai

Rhoddodd eich cyflogwr y ffurflen hon i chi gan na allwch gael SSP, neu gan fod eich SSP yn dod i ben.

Gallwch gael gwybod am y rhesymau pam yn **Rhan C** a beth i'w wneud nesaf yn **Rhan Ch**.

## Rhan A

(I'w gwblhau gan y Cyflogwr)

**Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen hon, mae'n rhaid i chi ei rhoi i'r cyflogai.**

I gael rhagor o wybodaeth am SSP ewch i **www.gov.uk/tal-salwch-statudol-arweiniad-i-gyflogwyr**

Neu gallwch ffonio llinell gymorth Cyflogwyr Cyllid a Thollau EF ar **0300 200 3200**.

## Gwybodaeth feddygol

**Anfonwch y ffurflen hon at eich cyflogai gydag unrhyw wybodaeth feddygol y maent wedi'i rhoi i chi sy'n cwmpasu cyfnod na allwch dalu SSP amdano.**

Gallwch ofyn i'ch gweithiwr roi gwybodaeth feddygol i chi fel prawf na allant ddychwelyd i'r gwaith os ydynt i ffwrdd am fwy na saith niwrnod.

Gall gwybodaeth feddygol fod yn Ddatganiad Ffitrwydd i Weithio, a elwir yn gyffredin yn nodyn ffitrwydd (a elwir weithiau yn 'nodiadau salwch' neu 'nodiadau meddyg'). Gall meddyg teulu neu feddyg ysbyty gyhoeddi nodyn ffitrwydd.

Fel arall, gallwch ddefnyddio adroddiad Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHP) os ydych chi, y cyflogwr, yn cytuno. Gall ffisiotherapydd, podiatrydd neu therapydd galwedigaethol gyhoeddi adroddiad AHP.

Dylai'r wybodaeth feddygol hon nodi a yw'r gweithiwr 'ddim yn ffit i weithio' ai peidio neu 'a allai fod yn ffit i weithio'. Dychwelwch wybodaeth feddygol i'ch gweithiwr oherwydd efallai y bydd ei hangen arnynt am geisiadau budd-dal yn y dyfodol.

**Ticiwch un o'r blychau canlynol**

- ☐ Rwyf wedi amgáu gwybodaeth feddygol sy'n ymwneud â chyfnod na allaf dalu SSP amdano
- ☐ **Nid** wyf wedi amgáu gwybodaeth feddygol

## Rhan A: Os ydych yn gyflogwr

Rwyf yn datgan bod y wybodaeth rwyf wedi rhoi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Rwyf yn deall os yw'r cyflogai hwn wedi bod yn cael SSP, mae'n rhaid i mi barhau i dalu SSP hyd at ac yn cynnwys y dyddiad cyn y dyddiad rwyf wedi ei ysgrifennu ar **Rhan B** o'r ffurflen hon.

**01** **Enw'r cyflogwr**

**02** **Llofnod y cyflogwr**

**03** **Dyddiad**
DD/MM/BBBB

**04** **Swydd yn y cwmni**

**05** **Rhif ffôn**

**06** **Rhif ffacs**

**07** **Cyfeiriad e-bost**

**08** **Cyfeiriad y cyflogwr**

Cod post

**09** **Stamp y cyflogwr**

## Rhan B: Eich cyflogai

(Cyflogwr i'w gwblhau)

**10 Teitl**

Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, Ms neu arall.

**11 Cyfenw neu enw teuluol**

**12 Pob enw arall, yn llawn**

**13 Cyfeiriad**

Cod post

**14 Rhif Yswiriant Gwladol (YG)**

**15 Rhif cloc, cyflogres neu gyflogai**

**16 Rhif cyfeirnod treth**

Gelwir hwn hefyd yn Gyfeirnod Talu Wrth Ennill (PAYE) Cyflogai.

**17 Ydych chi wedi bod yn talu SSP eich cyflogai?**

☐ Na

☐ Ydw

Rhowch ddyddiadau dechrau a gorffen y taliad.

DD/MM/BBBB

O

I

Os nad yw'r taliad wedi dod i ben eto, rhowch y dyddiad pryd y bydd yn dod i ben.

DD/MM/BBBB

## Rhan C: Pam na allwch gael Tâl Salwch Statudol

(Cyflogwr i'w gwbhau)

**Ni allwch gael SSP ar neu ar ôl**

DD/MM/BBBB

[ ]

**Mae hyn oherwydd:**

- ☐ Rydych wedi cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ystod y 12 wythnos diwethaf.
- ☐ Mae eich contract cyflogaeth wedi dod i ben neu fydd yn dod i ben.
- ☐ Daethoch yn sâl ar ôl eich contract cyflogaeth ddod i ben.

  (**Nodyn i'r cyflogai**: Bydd yn rhaid i'ch cyflogwr dalu SSP i chi os daethant a'ch contract i ben yn unig neu'n bennaf er mwyn osgoi talu SSP).
- ☐ Cyn bo hir byddwch wedi bod yn cael SSP am 28 wythnos yn olynol.

  Neu, rydych chi wedi cael SSP am gyfanswm o 28 wythnos, yn cynnwys amseroedd ar wahân yr oeddech y sâl a oedd 8 wythnos neu lai ar wahân.
- ☐ Roedd eich enillion cyfartalog am yr 8 wythnos cyn i chi fod yn sâl yn llai na'r Terfyn Enillion Is.

  Gallwch ddarganfod mwy trwy chwilio am 'rates and thresholds for employers' yn **www.gov.uk**
- ☐ Rydych yn disgwyl babi yn fuan neu rydych newydd gael babi.

  **Nodyn i'r cyflogai**:

  - Os gallwch gael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP), sef arian a delir gan y cyflogwr i fenywod am amser i ffwrdd o'r gwaith i gael eu babi, ni allwch gael SSP yn ystod eich cyfnod tâl mamolaeth 39 wythnos
  - Os na allwch gael SMP efallai y byddwch yn gallu cael taliad budd-dal o'r enw Lwfans Mamolaeth (MA). Os gallwch gael MA, ni allwch gael SSP.
- ☐ Rydych wedi bod yn sâl ymlaen ac i ffwrdd am fwy na 3 blynedd. Bob tro roeddech chi'n sâl, roedd am fwy na 4 diwrnod ac ni aethoch yn ôl i'r gwaith am fwy nag 8 wythnos cyn i chi fod yn sâl eto.
- ☐ Roeddech i ffwrdd o'r gwaith oherwydd anghydfod masnach a ddechreuodd cyn y diwrnod cyntaf yr oeddech yn sâl.

  **Nodyn i'r cyflogai**:

  - Efallai y gallwch gael SSP os oeddech eisoes yn ei gael pan ddechreuodd yr anghydfod
  - Efallai y gallwch gael SSP os gallwch ddangos eich bod yn sâl ac nad oedd gennych unrhyw ran uniongyrchol yn yr anghydfod - er enghraifft gallai hyn fod yn streic, yn cerdded allan neu gloi allan.
- ☐ Roeddech yn sâl tra yn y ddalfa. Neu rydych chi bellach yn y ddalfa gyfreithiol neu wedi cael dedfryd o garchar.
- ☐ Roeddech yn gweithio y tu allan i'r DU ar y diwrnod y daethoch yn sâl gyntaf ac nid oedd yn rhaid i'ch cyflogwr dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol dosbarth 1 eich cyflogwr ar eich enillion ar y diwrnod hwnnw.
- ☐ Nid ydych wedi dechrau gweithio i'ch cyflogwr eto.
- ☐ Ni wnaethoch ddweud wrth eich cyflogwr am eich salwch.

## Rhan Ch: Cyflogai – beth i'w wneud nawr

Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad eich cyflogwr i beidio â thalu SSP i chi, gofynnwch i'ch cyflogwr ei egluro i chi. Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch y penderfyniad hwn, ar ôl siarad â'ch cyflogwr, gallwch ymweld â **www.gov.uk/tal-salwch-statudol** am ragor o wybodaeth.

Gofynnwch i'ch cyflogwr am reswm os credwch:
- bod eu penderfyniad i beidio â thalu SSP i chi yn anghywir
- nad ydych yn cael y swm cywir o SSP.

Os ydych chi'n dal i anghytuno, gallwch ffonio tîm Anghydfod Taliadau Statudol Cyllid a Thollau EM ar **0300 056 0630** i gael cyngor.

Os ydych yn dal i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch neu anabledd efallai y gallwch gael arian a chymorth:
- i'ch helpu chi i ddychwelyd i'r gwaith, neu
- os na allwch weithio yn yr hirdymor.

Efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol neu gael help gyda chostau tai. Bydd eich cyflogwr yn dychwelyd unrhyw wybodaeth feddygol sydd ganddo atoch ar gyfer ceisiadau budd-dal yn y dyfodol.

Os ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, fel arfer yn ystod y 2 flynedd dreth lawn ddiwethaf efallai y gallwch wneud cais am:
- Lwfans Ceisio Gwaith(JSA) dull newydd
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) dull newydd.

Ymwelwch â **www.gov.uk/browse/benefits** i gael gwybod mwy.

Efallai y gallwch ofyn i'ch teulu, neu rywun rydych yn ei adnabod, os gallwch ddefnyddio eu mynediad i'r rhyngrwyd. Gallwch hefyd gael mynediad i'r rhyngrwyd yn eich canolfan gwaith leol.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ar ba fudd-daliadau y gallech wneud cais amdanynt, efallai y bydd gwasanaethau cyngor lles lleol, fel Cyngor ar Bopeth, yn gallu'ch helpu.

Sylwch, nid yw'r ffurflen hon yn gais am fudd-dal.

### Rhagor o help a chymorth

Os na allwch wneud cais am fudd-dal ar-lein neu os oes angen cymorth pellach arnoch

Ar gyfer Credyd Cynhwysol gallwch ffonio:
- Ffôn: **0800 328 1744**
- Ffôn testun: **0800 328 1344**
- Cyfnewid testun NGT (os na allwch clywed neu siarad dros y ffôn): **18001** yna **0800 328 1744**
- Saesneg: **0800 328 5644**
  Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.

Ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith Dull Newydd gallwch ffonio:
- Ffôn: **0800 012 1888**
- Ffôn testun: **0800 328 1344**
- Cyfnewid testun NGT (os nad ydych yn gallu clywed neu siarad dros y ffôn): **18001** yna **0800 328 1744**
- Saesneg: **0800 055 6688**
  Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 5pm.

Ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gallwch ffonio:
- Ffôn: **0800 328 1744**
- Ffôn testun: **0800 328 1344**
- Cyfnewid testun NGT (os nad ydych yn gallu clywed neu siarad dros y ffôn): **18001** yna **0800 328 1744**
- Saesneg: **0800 328 5644**
  Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 5pm.

## Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, gallwn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- gwaith a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel mae'r gyfraith yn caniatáu, i wirio'r wybodaeth rydych yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill os yw'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i ddiogelu yn erbyn trosedd.

I gael gwybod rhagor am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, gweler **www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**